OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2016 No. 413

## Rheoliadau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (Diwygiadau Canlyniadol) 2016

*Deddf Addysg 1996 (p. 56)*

**153.** Mae Deddf Addysg 1996 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

**154.** Yn adran 463(1)(b)(**1**) (ystyr "independent school") ar ôl "Children Act 1989" mewnosoder "or section 74 of the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014".

**155.** Yn adran 515(4)(**2**) (darparu gwasanaethau addysgu ar gyfer meithrinfeydd dydd), yn y diffiniad o "day nursery" ar ôl "and other children)" mewnosoder "or sections 37 to 39 of the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014 (meeting care and support needs of children)".

**156.** Yn adran 535(4)(**3**) (darparu gwasanaethau addysgu ar gyfer meithrinfeydd dydd), yn y diffiniad o "day nursery" ar ôl "and other children)" mewnosoder "or sections 37 to 39 of the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014 (meeting care and support needs of children)".

**157.** Yn adran 562(3)(**4**) (Deddf i beidio â bod yn gymwys i bersonau a gedwir yn gaeth o dan orchymyn llys) ar ôl "Children Act 1989" mewnosoder "or section 119(4) of the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014 (use of accommodation for restricting liberty)".

**158.** Yn adran 562J(1) (dehongli'r bennod) yn y diffiniad o "looked after child", ar ôl "Children Act 1989" mewnosoder "or the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014".

(**1**) Amnewidiwyd adran 463 gan adran 172 o Ddeddf Addysg 2002 (p. 32).
(**2**) Amnewidiwyd adran 515(4) gan baragraff 25(1) a (4) o Atodlen 2 i Ddeddf Gofal Plant 2006 (p. 21).
(**3**) Amnewidiwyd adran 535(4) gan baragraff 26(1) a (4) o Atodlen 2 i Ddeddf Gofal Plant 2006.
(**4**) Mewnosodwyd adran 562(3) gan adran 49(1) a (5) o Ddeddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009.